Total annual community benefit funding in Wales, based on payments of £2,000/MW per annum:	£6,330,000	£3,750,000
Total annual community benefit funding in Wales, based on payments of £3,000/MW per annum:	£9,495,000	£5,625,000

Value of the wind energy sector to the Welsh economy

If we were to relate current turnover estimates produced by this study for the wind energy sector in Wales to the current wind energy wattage produced in Wales we would get an industry turnover value of £325,000/MW.

If we were then to assume that the ratio of business turnover created per MW was to remain constant as wind energy production in Wales increased over the next decade, then by 2020, based on the forecast of energy levels produced at the time we would get the following turnover figures: Caution is required when interpreting the figures outlined in table 6 to ensure that the assumptions upon which the figures are based are taken into full consideration. They should therefore be considered only as illustrative estimates of the possible economic contribution that the wind energy sector in Wales could produce based on our current understanding of the potential energy production growth of the sector over the next decade. However, even when we adopt sufficient caution when interpreting the figures they still illustrate the considerable potential economic contribution that the wind energy sector can offer Wales. Wind energy growth by 2020 could generate business turnover equivalent to between 1% and 2% of Welsh GDP. The challenge for Wales is to ensure that as much as possible of this turnover is retained in Wales by supporting business opportunities up and down the supply chain.

	Estimated operational capacity by 2020 (survey data)	Adjusted operational capacity by 2020
	3.17GW	1.88GW
Turnover (£)	£1 billion	£600 million
% of Welsh GDP (%)	2.2%	1.3%

Views from the wind energy sector: the impact of wind energy on the Welsh economy and communities

Survey respondents were invited to express any views or comments they had on the impact they envisage wind energy will have on the development of the Welsh economy and communities in Wales over the next decade.

In this section we present a number of the comments. The views expressed, which are presented anonymously, broadly fell into a number of categories, ranging from the need to invest in skills development to calls for regulatory bodies to smooth the progress of planning processes.

The views expressed support the data analysis and quantitative evidence presented in previous sections. The overall impression left is that companies are both determined and passionate about further strengthening the sector and ensuring that Wales is able to maximise the benefits from current and future opportunities.

The need to invest in skills development and capacity amongst Welsh companies

“The wind industry in Wales is already providing well-paid, skilled jobs. Work now needs to be done to ensure that Welsh-based companies are well placed to tender for construction work and other services.”

“The renewables industry is set to have an extremely positive impact on the Welsh economy with the number of green collar jobs expected to rise considerably during the construction and operation process. Engaging with local businesses is a key aim of all our developments, and our projects in Wales have the potential to create numerous jobs and provide millions of pounds of investment in nearby communities.”

“[We need to] develop a pool of expertise, skills and manufacturing capability that can be exported, and put Wales in the forefront of the green economy. This means a significant number of well-paid jobs in a wide range of sectors, backgrounds and locations.”

“There will be a lot of construction-related work for onshore schemes in or near the SSAs. There will be some localised impact during construction, and some long-term impact in terms of landscape and visual effects and noise. There will be some long-term jobs in O&M.”

Attract businesses to establish a presence in Wales to capitalise on opportunities

“Wind energy development could bring significant extra benefits to local communities over the next decade. Manufacturing and servicing organisations should be encouraged to locate in Wales.”

Calls for regulatory authorities to address the constraints facing developers

“The development, construction and operation of onshore wind energy will have a massive positive impact on the economy of rural Wales over the coming decade, but only with the support of the Welsh Assembly Government and local authorities towards developers to make this happen. Current progress is very poor due to the level of obstacles and red tape in place, and unless commitment is given by the aforementioned bodies, massive opportunities for the Welsh economy

and the people of Wales could be missed or at least not extracted to their full potential. Support should also be encouraged (in the form of commitment to delivering policy) for Welsh-based companies that strive to be part of the wind energy industry in Wales, as through these companies most of the benefit will stay within the country and its economy.”

Political and regulatory support for smaller developments

“There are strong indications of a surge of smaller (50–500kW) landowner-led and financed projects in Wales. This requires political support to foster a new industry – hopefully leading to small turbine manufacture, as well as tower manufacture, and development, installation and O&M.”

An acknowledgement of the impact of community benefit payments

“Wind energy will stimulate local economies and bring ongoing quality employment opportunities. Community funds should bring considerable benefits to local communities, particularly if match-funding is secured for community projects from other sources.”

“Significant income being provided into areas of current low income through land leases and community funds.”

“A significant impact through employment opportunities in the development, construction and operation phases, and increasingly in manufacturing. Communities will also benefit from significant employment opportunities and community funding.”

Clear economic benefits of wind energy

“Given that there are two large offshore zones plus numerous onshore projects in Wales, wind energy is predicted to have a significant contribution to the Welsh economy.”

“Wind could be the largest boom for the rural Welsh economy in our lifetime.”

“Wind energy has the potential to provide real, long-term economic and community benefit to communities in Wales as long as the following can happen: i. Effective ownership and proactive use of community benefit funds by communities in Wales for real economic and community development

purposes. ii. A proactive, joined-up approach is developed by the industry, working with government to attract investment to maximise manufacturing opportunities for wind turbine components in Wales. This could potentially lead to further benefits further along the supply chain for other manufacturing companies in Wales (including Corus in Port Talbot and providers of the full range of services). If the wind energy sector is seen as a significant contributor to the Welsh economy in this way, we believe it would have a positive impact on attitudes towards it.”

Conclusions

The Economic Value of Wind to Wales Report

The survey conducted by Arad Consulting on behalf of RenewableUK Cymru into the Economic Value of Wind to Wales is a first professional attempt to estimate the current and future contribution of the growing wind energy sector to the Welsh economy.

RenewableUK Cymru conclusion

The results are of particular interest as it is based on a survey of key businesses that operate in the sector, and as such reflects the industry's current activity and projections for growth.

The findings are based on questionnaire responses offered by businesses known to be operating within the wind energy sector in Wales. 53 companies were identified in total and of these 20 (38%) completed the questionnaire. The size of the sample is sufficient for the report to apply indicators to make further predictions.

The survey identifies the profile of the sector in terms of the make-up of organisations and reasonably separates the nature of business between companies primarily involved in planning and development, manufacturing and engineering, and legal and consultancy services. Over 50% of businesses under analysis were planners and developers.

Having established these three groups of businesses the report evaluates the present value to the Welsh economy according to current and future turnover, spending and job creation. Questions focused on turnover derived from activities linked to wind energy and estimated growth in 2011 and 2012. There were also questions on staff employed, expenditure on goods and services, planned development in wind capacity, and current and future community benefit payments.

Turnover

Following a methodology that ensured that applied averages did not misrepresent the result, the analysis estimates a total annual turnover derived from activity linked to wind energy in Wales of £123.5 million. In GVA terms this estimate places the wind energy sector far above the contribution of industries such as fishing and forestry in Wales, while comparing well with long-established sectors such as the manufacturing of wood products, agriculture, and mining and quarrying.

“The results are of particular interest as it is based on a survey of key businesses that operate in the sector, and as such reflects the industry's current activity and projections for growth.”

“All survey respondents expected some growth in turnover in 2011.”

This set of data clearly demonstrates that the wind energy sector is an important contributor to the Welsh economy, in particular its input into the GDP of rural areas.

In terms of forecasted growth in turnover, the results show the industry's confidence in growth despite the numerous obstacles that frustrate progress on the ground. All survey respondents expected some growth in turnover in 2011, with 38% of them expecting growth to be as much as 10–20%. Nearly half of the businesses expected to experience growth in turnover of 10–20% in 2012.

Contribution to the Welsh economy

This section outlines the contribution that the wind energy sector makes to the Welsh economy in terms of employment created (i.e. Welsh-based jobs), and the spending on wages, goods and services in Wales. The report identified that there are 789 people employed in the sector, which amounts to 655 full-time equivalents. This total rises to 1,190 by 2012 or 1,040 full-time equivalents. This confirms that the sector offers significant employment opportunities for highly skilled, high-waged jobs.

The survey asked businesses to outline their annual expenditure on staff, goods and services making up supplies, as well as expenditure on contracts awarded to other companies in Wales. The evidence shows that there is an expenditure of around £34.5m on staff in Wales, while it is estimated that another £34m is spent on goods and services. £34m is also the expenditure on contracts awarded to other companies in Wales. In total, the wind energy sector contributes around £103 million pounds directly to the Welsh economy.

Part of this direct expenditure will be passed on in further rounds of spending in Wales. By applying a standard industry multiplier to the expenditure figure, the report estimates that the total annual contribution of the wind energy sector in Wales is over £158 million.

Wind energy capacity and community benefit payments

Businesses were asked to outline their current wind energy capacity as well as planned increases in capacity by 2015 and 2020, with data being cross-referenced with the RenewableUK tracker database UKWED. The results clearly reflect the high number of projects that have already been submitted to the planning stage or are being prepared for submission. Survey responses indicate that capacity could increase from the current 380MW to around 1,110MW by 2015.

Respondents were invited to provide data of community benefit funding that they currently pay. As there is no fixed rate of payments the report presents three scenarios to demonstrate potential community benefit funding per year by 2015 and 2020. Different scenarios show community benefit payment contributions could range from £1.7 million to £3.3 million by 2015, and from £3.7 million to £9.5 million by 2020.

“The wind energy sector contributes around £103 million pounds directly to the Welsh economy.”

“The results clearly reflect the high number of projects that have already been submitted to the planning stage or are being prepared for submission.”

Concluding comment

Businesses were asked to outline their current wind energy capacity as well as planned increases in capacity by 2015 and 2020, with data being cross-referenced with the RenewableUK tracker database UKWED. The results clearly reflect the high number of projects that have already been submitted to the planning stage or are being prepared for submission. Survey responses indicate that capacity could increase from the current 380MW to around 1,110MW by 2015.

Respondents were invited to provide data of community benefit funding that they currently pay. As there is no fixed rate of payments the report presents three scenarios to demonstrate potential community benefit funding per year by 2015 and 2020. Different scenarios show community benefit payment contributions could range from £1.7 million to £3.3 million by 2015, and from £3.7 million to £9.5 million by 2020.

Given the continuing difficult global economic circumstances the resilience and confidence of the wind energy sector in Wales is remarkable and should be celebrated. The survey results clearly show that the sector is already contributing a large amount to the Welsh economy. If allowed to grow the wind energy sector is likely to generate business turnover of between 1% and 2% of Welsh GDP. This would make it a significant and vibrant low-carbon sustainable industry that the Welsh Government and its people can be proud of.

RenewableUK

Greencoat House, Francis Street
London SW1P 1DH, United Kingdom

Tel: +44 (0)20 7901 3000

Fax: +44 (0)20 7901 3001

Web: www.renewable-uk.com

Email: info@renewable-uk.com

RenewableUK - Cymru

Temple Court, 13a Cathedral Road,
Cardiff, Wales, CF11 9HA

Tel: 029 2022 0700

Email: cymru@renewable-uk.com




Gwerth Economaidd Ynni Gwynt i Gymru

Arolwg

Mai 2010





RenewableUK yw'r corff masnach a phroffesiynol ar gyfer diwydiannau ynni gwynt a diwydiannau ynni morol adnewyddadwy y DU. Cafodd ei sefydlu yn 1978, a chyda 595 o aelodau corfforaethol, RenewableUK yw'r brif gymdeithas fasnach ar gyfer ynni adnewyddadwy yn y DU. Mae'r sector ynni gwynt wedi tyfu ar raddfa gyflymach nag unrhyw ffynhonnell ynni adnewyddadwy arall am y saith blynedd diwethaf, a disgwylir i'r duedd hon barhau gyda chostau ynni gwynt yn gostwng a'r galw rhyngwladol brys i fynd i'r afael ag allyriadau CO2 er mwyn atal y newid yn yr hinsawdd. Yn 2004, ymestynnodd RenewableUK ei genhadaeth i hyrwyddo ynni'r tonnau ac ynni'r llanw a defnyddio profiad y Gymdeithas i lywio'r technolegau hyn ar hyd yr un llwybr tuag at fasnacheiddio.

Ein prif nod yw hyrwyddo'r defnydd o bŵer gwynt, pŵer y tonnau a phŵer y llanw yn y DU ac o'i gwmpas. Rydym yn ymddwyn fel pwynt gwybodaeth canolog ar gyfer ein haelodau ac fel grŵp lobïo i hyrwyddo ynni gwynt ac ynni morol adnewyddadwy i lywodraeth, diwydiant, y cyfryngau a'r cyhoedd. Rydym yn ymchwilio ac yn canfod atebion i faterion presennol ac yn gyffredinol, rydym yn ymddwyn fel y fforwm ar gyfer y diwydiannau ynni gwynt, ynni'r tonnau ac ynni'r llanw yn y DU, ac mae gennym drosiant blynyddol o fwy na phedwar miliwn o bunnoedd.

Cyflwyniad RenewableUK – Cymru



Fel pennaeth RenewableUK Cymru, mae'n bleser gennyf gyflwyno ein hadroddiad blynyddol, sydd eleni yn cynnwys arolwg arloesol gan Arad Consulting ar 'Gwerth Economaidd Ynni Gwynt i Gymru'. Mae'r arolwg yn mesur yn gynhwysfawr gyfraniad economaidd y sector ynni gwynt i economi Cymru dros y ddegawd nesaf, ac mae'n darparu tystiolaeth rymus o'r manteision economaidd y mae'r sector yn debygol o'u darparu.

Wrth gynnal yr ymchwil, bu i Arad gysylltu â hanner cant o fusnesau yng Nghymru gan gynhyrchu ffigurau cyffrous iawn: Mae cyfanswm trosiant blynyddol busnesau sy'n gweithredu yn y sector ynni gwynt yng Nghymru dros £4 biliwn tra bo £253 miliwn yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn unig, gyda £123 miliwn pellach yn deillio o weithgaredd sy'n gysylltiedig â'r sector ynni gwynt. Drwy edrych tuag at 2020, mae'r adroddiad yn rhagweld referniw o hyd at £1 biliwn a 2.2% o'r GDP, gan ddod i'r casgliad "yr her i Gymru yw sicrhau bod cymaint o'r trosiant hwn â phosibl yn cael ei ddiogelu yng Nghymru a hynny drwy gefnogi cyfleoedd busnes ar hyd a lled y gadwyn gyflenwi."

Yn bendant, mae'r ffigurau yn adroddiad Cyflwr y Diwydiant yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud, ond os ydym am wireddu'r manteision cynhwysfawr hyn, mae angen cael gwared ar y rhwystrau sy'n atal datblygiad. Mae RenewableUK Cymru wedi dadlau ers tro bod angen diwygio TAN 8 yn sylweddol ac 'y dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog awdurdodau lleol a darparu'r adnoddau perthnasol sydd eu hangen arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu goblygiadau ynni adnewyddadwy.'

Mae'r cyfleoedd i ddatblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru o ran adnoddau yn eithriadol, a bellach mae hi'n glir o'r ymchwil yr ydym wedi'i chyhoeddi bod hynny'n wir am y manteision economaidd hefyd. Mae'n achos o roi dau a dau at ei gilydd, ac, wrth i ni gyfarfod ar gyfer pedwaredd gynhadledd flynyddol RenewableUK Cymru, dyma'r gwaith y dylem fod yn dal ati i'w wneud fel diwydiant mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid a'r Llywodraeth.

Llywelyn Rhys

Pennaeth RenewableUK Cymru

Cynnwys

- 01 Cyflwyniad RenewableUK Cymru**
- 07 Cyflwyniad**
- 08 Methodoleg
- 09 Proffil o'r sector
- 10 Trosiant**
- 12 Rhagolygon o'r cynnydd mewn trosiant
- 13 Cyfraniad at economi Cymru**
- 13 Cyflogaeth
- 15 Gwariant ar staff, nwyddau a gwasanaethau o fewn economi Cymru
- 17 Capasiti ynni gwynt a thaliadau er budd y gymuned**
- 17 Capasiti ynni gwynt presennol a chapasiti arfaethedig
- 18 Taliadau er budd y gymuned
- 19 Gwerth y sector ynni gwynt i economi Cymru
- 20 Sylwadau gan y sector ynni gwynt: effaith ynni gwynt ar economi a chymunedau Cymru**
- 22 Casgliadau**

Ynni Gwynt yng Nghymru – Cyflwr y Diwydiant (diweddariad o adroddiad 2009)


Darpariaeth

Pan gyhoeddwyd TAN 8, roedd gan Lywodraeth y Cynulliad darged ynni adnewyddadwy i gynhyrchu 4TWh y flwyddyn erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020. Er mwyn cyflawni targed 2010, daeth Llywodraeth y Cynulliad i'r casgliad y dylid sefydlu 800MW o gapasiti ychwanegol drwy gyfrwng gwynt ar y tir, tra byddai angen cynhyrchu 200 MW pellach drwy gyfrwng y gwynt ar y môr a mathau eraill o ynni adnewyddadwy.

Er mwyn cyrraedd y targed o greu 800 MW o ynni gwynt ychwanegol ar y tir erbyn diwedd 2010, byddai'n rhaid cael cyfartaledd o 12.3 MW i ddod ar lein yng Nghymru pob mis. Drwy olrhain cynnydd cronus y capasiti newydd i gynhyrchu gwynt ar y tir wrth i brosiectau ddod yn weithredol, mae'n bosibl tracio'r cynnydd a wnaed yn y blynyddoedd ers cyhoeddi TAN 8.

Ym mis Gorffennaf 2009 roedd capasiti o 103 MW wedi'i gyflenwi tuag at darged 2005 o 800 MW o ynni ychwanegol ar y tir erbyn 2010, sef dim ond 13% o'r hyn a oedd ei angen erbyn diwedd 2010. Pe byddai cynnydd wedi bod yn unol â'r cyfartaledd misol gofynnol, dylen ni wedi gweld tua 580MW ar gael erbyn Gorffennaf 2009. Felly, gellir disgrifio Cymru i fod 82% y tu ôl i'r amserlen.

TAN 8 cynnydd Gorffennaf 2005 – Mai 2010



Yn y deg mis ers y gynhadledd ddiwethaf, mae pedwar prosiect ynni gwynt ar y tir wedi dod yn weithredol yng Nghymru, sef prosiectau Alltwalis a Phentywyn (Pendine) yn Sir Gaerfyrddin, Solutia yn Sir Benfro a'r Wern Ddu yn Sir Ddinbych. Gyda'i gilydd, mae'r 22 o dyrbinau ychwanegol yn ychwanegu capasiti gweithredol o 45 MW i gyfanswm yr ynni gwynt ar y tir yng Nghymru. Felly, fel y mae pethau'n sefyll ym mis Mai 2010, gyda dim ond saith mis i fynd cyn diwedd y dyddiad targed gwreiddiol, dim ond 19% o'r targed ar gyfer ynni ar y tir ychwanegol sydd wedi'i gyflawni; 79% y tu ôl i'r amserlen.

Cynllunio

Fel y nodwyd yn adroddiad Cyflwr y Diwydiant, nid yw canolbwyntio yn unig ar brosiectau gwynt ar y tir sydd wedi dod yn weithredol yn cymryd i ystyriaeth y potensial i ddarparu prosiectau sydd eisoes wedi'u caniatáu neu sydd oddi fewn y system gynllunio ar hyn o bryd ac yn disgwyl am benderfyniad. Mae cronfa ddata tracio RenewableUK yn dangos bod dwy fferm wynt ar y tir yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd - sef Glynrhedynog (Ferndale) a Maesgwyn - a fydd yn ychwanegu 36.4 MW tra bo 2.5 MW pellach wedi'i ganiatáu ond heb ei ddatblygu. Pan gwblheir y prosiectau hyn, bydd 23% o'r targed wedi'i gyflawni.

Fodd bynnag, fel y gwelwyd fis Gorffennaf diwethaf, mae rhan fwyaf y MW yn gysylltiedig â phrosiectau sydd oddi fewn y system gynllunio ac yn disgwyl am benderfyniad. Yn wir, ers Gorffennaf mae gwerth 360 MW o brosiectau ychwanegol wedi'u cyflwyno a fyddai'n cynyddu cyfanswm y prosiectau sy'n byw o fewn y system gynllunio ar hyn o bryd i dros 1,250 MW. Mae'r diddordeb a'r gweithgaredd parhaus hwn ymhlith datblygwyr ynni gwynt ar y tir yn galonogol ac yn awgrymu y bydd capasiti yn mynd llawer ymhellach na tharged 2010. Fodd bynnag, nid yw'r lefel hon o ddiddordeb gan y diwydiant i gyflawni'r targedau yn cael ei atseinio gan awdurdodau cynllunio sydd wedi dangos cyfraddau penderfynu araf. Ers mis Gorffennaf y llynedd, dim ond 3 prosiect y cafwyd penderfyniad yn eu cylch, gyda dim ond Canolfan Ddosbarthu lleiaf 2.5 MW Tesco yn cael caniatâd.

Gan fod pob prosiect a benderfynwyd arnynt yn y 10 mis diwethaf o dan 50 MW o ran maint, cafodd y penderfyniadau eu gwneud gan awdurdodau lleol neu gan arolygiaeth gynllunio yn achos Gorsedd Bran a gafodd ei apelio. Yng Nghymru, mae prosiectau sydd dros 50 MW yn dod o dan Adran 36 o Ddeddf Trydan 1989 ac yn draddodiadol roedd penderfyniadau yn eu cylch yn cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am faterion ynni. O ganlyniad i Ddeddf Cynllunio 2008, crëwyd Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC) sydd bellach yn gyfrifol am benderfynu ar brosiectau mwy. Lanswyd yr IPC fis Ebrill 2010 ac mae eisoes yn ystyried pum fferm wynt ar y tir ar raddfa-fawr yng Nghymru a fyddai â'r capasiti i gynhyrchu 670 MW.

Er y bydd gan yr IPC ddylanwad sylweddol ar lefel yr ynni gwynt a gynhyrchir yng Nghymru, mae'n werth nodi bod 15 prosiect gwerth dros 540 MW yn nwylo awdurdodau cynllunio lleol. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog awdurdodau lleol a darparu'r adnoddau perthnasol sydd eu hangen arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu goblygiadau ynni adnewyddadwy.

Rhwydwaith Grid

Fel yr amlinellwyd yn adroddiad Cyflwr y Diwydiant 2009, mae'r diffyg rhwydwaith grid sy'n gwasanaethu prif ardaloedd strategol yng nghanolbarth Cymru wedi bod yn rhwystr mawr o ran cyflawni'r set bresennol o dargedau. Gan ein bod wedi cydweithio'n agos â'r Grid Cenedlaethol ar y mater hwn, mae RenewableUK Cymru yn edrych ymlaen at gychwyn proses ymgynghori gyhoeddus lawn a thryloyw a fydd, yn y pen draw, yn argymhell llinell 400 KV newydd a lleoliad is-orsaf.

Rhwydweithiau Cludiant

Mae datblygiad cydredol sawl fferm wynt wedi codi pryderon lleol yn rhannau penodol o Ganolbarth Cymru. Mae RenewableUK wedi parhau i gydweithio'n agos ar y mater hwn â phrif randdeiliaid gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, awdurdod lleol Powys, Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru ac Awdurdodau Heddlu Cymru i reoli a lleihau effeithiau negyddol ar draffig. Yn ogystal â nodi'r cyfyngiadau er mwyn i awdurdodau allu penderfynu ar amserlen symudiadau, mae'r diwydiant wedi bod yn cydweithio i gynnal profion a fydd yn llywio'r datrysiad terfynol.

Datganiad Polisi Ynni

O ran datblygiadau polisi pwysig yn y sector ynni gwynt, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Strategaeth Ynni yn ddiweddar neu, i roi iddo ei deit llawn a chywir, Chwyldro Carbon Isel - Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r datganiad wedi cynyddu dyheadau adnewyddadwy Cymru yn sylweddol yn y 15 mlynedd nesaf o fod yn 'hunan-gynaliadwy' fel yr awgrymwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, i fod yn cynhyrchu dwywaith cymaint o drydan ag y mae'r genedl yn ei ddefnyddio heddiw. Byddai hynny'n golygu bod Cymru yn cynhyrchu 48TWhr o drydan adnewyddadwy yn unig; a fyddai'n arwain at chwyldro ynni y dylid ei groesawu.

Gan edrych ar y dadansoddiad rhwng y technolegau yn y Datganiad, mae'n bendant bod newid mewn agweddau o blaid ynni gwynt ar y môr gyda photensial o 6 GW yn cael ei nodi. Mae'r cyhoeddiad diweddar ynghylch ynni gwynt ar y môr, ynghyd â dyheadau y bydd rhai o borthladdoedd Cymru yn elwa'n economaidd ar brosiectau mawr ledled arfordir Cymru, yn bendant wedi cynyddu'r brwdfrydedd dros ynni gwynt ar y môr yn nhyb y Llywodraeth. Fodd bynnag, mae cwestiwn ynghylch faint o'r capasiti ar y môr a fyddai'n disgyn o fewn dyfroedd tiriogaethol Cymru ac ynghylch y dyddiad darparu heb ei gydnabod ar gyfer 2016.

Gyda'r Datganiad Polisi Ynni yn adolygu dyheadau gwynt ar y tir i 2 GW, a chan nad oes unrhyw beth i ddynodi y bydd y drefn gynllunio yn cael ei llacio, mae'n debygol mai datblygu prosiectau gwynt ar y tir fydd yr her fwyaf i'r diwydiant. Dylid ystyried y broses o ddatblygu'r dechnoleg adnewyddadwy fwyaf aeddfed, mwyaf economaidd hyfyw ac sydd ar gael yn hawdd, sef ynni gwynt ar y tir, i fod y cam cyntaf tuag at gyflawni targedau ynni adnewyddadwy a sicrhau hyder buddsoddwyr at y dyfodol.

Diweddaru TAN 8

Roedd cytundeb cynghrair llywodraeth Cymru'n Un yn ymrwymo i ddiweddaru TAN 8, sef y canllawiau cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae'r diwydiant o'r farn, heb fabwysiadu dull mwy hyblyg, bydd y pwysau cronus o leoli nifer cynyddol o ffermydd gwynt ar y tir ar raddfa fawr o fewn ardaloedd daearyddol cyfyng, yn debygol o greu problemau a bydd yn llesteirio cynnydd.

Yn sgil y Datganiad Polisi newydd, mae'n ymddangos na fydd unrhyw ddiwygiad cyfanwerthu i'r canllawiau cynllunio. Yn lle hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gobeithio asesu'r capasiti sydd ar ôl mewn ardaloedd sydd wedi'u nodi'n bresennol; darparu pecyn cymorth i awdurdodau lleol i'w helpu i nodi a gwneud y gorau o safleoedd allweddol ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy; ac i gydgrynhoi amcanion y Datganiad Polisi Ynni i'r polisi cynllunio presennol. Mae RenewableUK Cymru ar ddeall y bydd swyddogion yn anelu at gwblhau'r tasgau hyn erbyn diwedd 2010.

Mae hi wedi bod yn hen uchelgais gan Grŵp Strategaeth RenewableUK Cymru i gael astudiaeth broffesiynol a chynhwysfawr o gyfraniad economaidd y sector ynni gwynt i economi Cymru. Mae gan RenewableUK nifer o aelodau yn weithredol yng Nghymru sy'n cyfrannu at yr economi genedlaethol mewn sawl ffordd. Yn bennaf, maent yn cyflogi pobl Gymreig ac yn rhoi gwaith i gwmnïau eraill o Gymru, ond maent hefyd yn talu trethi lleol ac yn ymgymryd â gwaith mewn rhannau eraill o Gymru, gan ddod â manteision yn ôl i'r wlad.

Fodd bynnag, ar wahân i dystiolaeth anecdotaidd a chanlyniadau arolwg pôl ar antur (straw poll survey) a gynhaliwyd gan BWEA Cymru ymhlith nifer cyfyngedig o'i aelodau yn 2007, prin yw'r ddealltwriaeth i ba raddau y mae'r sector ynni gwynt yn cyfrannu yn economaidd. Teimlwyd, er mwyn darparu tystiolaeth i lywodraeth a rhanddeiliaid ar y manteision economaidd i Gymru, dylid penodi ymgynghorwyr allanol i gynnal arolwg ymhlith busnesau sy'n weithredol yn y sector yng Nghymru.

Yn dilyn proses dendro gystadleuol, penodwyd Arad Consulting gan RenewableUK i gynnal arolwg ac i ddadansoddi'r canlyniadau a gafwyd. Cysylltodd Arad â dros 50 o fusnesau sy'n weithredol yn y sector yng Nghymru gyda dros traean ohonynt yn llenwi'r holiadur.

Roedd y pynciau a aethpwyd i'r afael â hwy yn yr arolwg yn cynnwys trosiant blynyddol; lefel cyflogaeth bresennol; gwariant ar nwyddau, gwasanaethau a chontractau; a thaliadau disgwylidig er budd y gymuned. Gofynnwyd i fusnesau hefyd ddarogan eu gweithgaredd disgwylidig dros y ddegawd nesaf er mwyn i Arad allu amcangyfrif y manteision i Gymru yn y dyfodol o ddatblygu'r sector ynni gwynt tuag at 2020. Drwy gymhwyso dangosyddion i'r sampl o ymatebion a gafwyd a thrwy weithio gyda senarios o ddatblygiad tuag at 2020, mae Arad wedi amcangyfrif cyfanswm cyfraniad y diwydiant gwynt i economi Cymru, gan gynnwys y taliadau cronus uniongyrchol er budd y gymuned. Mae'r adroddiad a ganlyn yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg fwyaf cynhwysfawr i'w gynnal ar y sector ynni gwynt yng Nghymru hyd yn hyn. Ei nod yw amcangyfrif gwerth y sector ynni gwynt i'r economi yng Nghymru.

Adroddiad Gwerth Economaidd Ynni Gwynt i Gymru

Mae ynni gwynt yn dod yn sector economaidd fwyfwy amlwg yn y DU yn gyffredinol a chyda rhai o'r adnoddau gwynt gorau ym Mhrydain, Cymru yn arbennig.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i gynhyrchu 15% o'n holl egni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020, tra bo Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo i gyrraedd targed uchelgeisiol o gynhyrchu dwbl cyfanswm y trydan sydd ei angen yng Nghymru o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2025.

Gan adeiladu ar y targed o 800 MW o gapasiti gwynt ar y tir ychwanegol yng nghanllawiau cynllunio Nodyn Cyngor Technegol 8 (TAN 8) 2005, bu i'r Datganiad Polisi Ynni a gyhoeddwyd yn ddiweddar gynyddu'r uchelgais hwn i 2 GW o wynt ar y tir a 6 GW o wynt ar y môr erbyn 2025. Fel hyrwyddwr y technolegau tonnau a llanw, mae RenewableUK Cymru yn rhannu uchelgais a dyhead Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gymru ddod yn arweinydd yn y meysydd hyn.

Haf diwethaf, bu i ni gyhoeddi Ynni gwynt yng Nghymru - Cyflwr y Diwydiant. Roedd yr adroddiad hwn yn asesu'r cynnydd a wnaed o ran y datblygu ynni gwynt yng Nghymru dros gyfnod oes canllawiau cynllunio ynni adnewyddadwy Llywodraeth y Cynulliad 2005. Roedd yr adroddiad yn edrych ar y cerrig milltir a gyrhaeddwyd, yn ymchwilio i berfformiad cynllunio ac yn nodi'r rhwystrau a oedd yn atal cyflawniad o'r targedau trydan adnewyddadwy hyn. Yn y tymor byr i ganolig, ynni gwynt, yn arbennig gwynt ar y tir, a fydd yn darparu'r prif hwb i gynyddu capasiti egni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae gwynt ar y tir yn parhau i fod y dull mwyaf effeithiol a chyfleus o gyflawni holl dargedau ynni adnewyddadwy Cymru.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod y cyfraniad cynyddol y bydd ynni gwynt ar y môr yn debygol o'i wneud, yn arbennig gan fod Llywodraeth y DU wedi nodi nifer o safleoedd ar y môr sy'n addas ar gyfer ffermydd gwynt ar raddfa fawr. Mae dau o'r safleoedd hyn oddi ar arfordir Cymru a byddant yn cyfrannu'n sylweddol at gapasiti Cymru i greu ynni adnewyddadwy.

Roedd adroddiad Cyflwr y Diwydiant yn ymchwilio i'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni targedau ynni gwynt penodol y Llywodraeth yn y cyfnod rhwng cyhoeddi canllawiau cynllunio TAN 8 ym mis Gorffennaf, a dyddiad cynhadledd y llynedd ym mis Gorffennaf 2009. Roedd yr adroddiad yn edrych ar y berthynas rhwng yr hyn a oedd yn cael ei baratoi drwy gyfrwng prosiectau a'r hyn a oedd yn cael ei gyflenwi ar y tir mewn gwirionedd. Roedd yr adroddiad hefyd yn ymchwilio i nifer o rywstrau a oedd yn atal cynnydd.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddiad cryno ar y materion sy'n ymwneud ag ynni gwynt a drafodwyd yn yr adroddiad Cyflwr y Diwydiant gwreiddiol.

“Mae gwynt ar y tir yn parhau i fod y dull mwyaf effeithiol a chyfleus o gyflawni holl dargedau ynni adnewyddadwy Cymru”

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu gwerth y sector ynni gwynt yng Nghymru. Mae'n dechrau drwy ddiffinio proffil y sector o ran y sefydliadau sy'n rhan ohono ac yna yn mynd ymlaen i gyflwyno ei werth i Gymru yn ôl y trosiant presennol a'r trosiant yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hefyd yn asesu cyfraniad y sector i economi Cymru yn nhermau gwario ar nwyddau a gwasanaethau a'r swyddi sy'n cael eu creu. Yn olaf, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gapasiti ynni gwynt yng Nghymru, gan archwilio'r capasiti presennol a'r hyn sy'n cael ei ddatblygu hyd 2020 yn ogystal â thaliadau er bydd y gymuned a fydd yn cael eu talu o ganlyniad.

Methodoleg

Mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar ymatebion y sefydliadau a gymerodd ran mewn arolwg a gynhaliwyd gan Arad Consulting Ltd, a hyn drwy gyfrwng holiadur yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2010.

Rhodddwyd y cyfle i'r holl fusnesau yr oeddem yn gwybod eu bod yn gweithredu o fewn y sector ynni gwynt yng Nghymru (cyfanswm o 53) i ymateb i'r arolwg a bu i 20 (39%) lenwi'r holiadur.

Yn dilyn trafodaeth â RenewableUK, roeddem yn fodlon bod y cwmnïau a ymatebodd yn llunio sampl cynrychioladol, a oedd yn ein galluogi i ddadansoddi er mwyn darparu amcangyfrifon ar gyfer y sector cyfan o ran trosiant, cyflogaeth a thaliadau er budd y gymuned.

Cafodd cwmnïau eu categorio yn ôl eu prif weithgaredd. Cafodd datblygwyr eu rhannu ymhellach yn unol â'u maint. Roedd y cyfraddau ymateb ar gyfer y 'math o gwmni' fel â ganlyn:

Datblygwyr	(45%)
Gweithgynhyrchu a Pheirianeg	(27%)
Cyfreithiol ac Ymgynghori	(27%)
Cyfradd ymateb	(39%)

Fel y nodir uchod, roedd ymatebwyr yn cynnwys cymysgedd o ddatblygwyr mawr a rhai llai. Mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn deillio o broses o Gronni gwerthoedd cymedrig a gyfrifwyd o'r ymatebion. O'r ymatebion i'r arolwg, cyfrifwyd gwerthoedd cyfartalog ar gyfer sefydliadau o fewn pob un o'r tri chategori a amlinellir yn ffigur 1 isod. Yna, cafodd y gwerthoedd cyfartalog hyn eu cronni i gynrychioli'r holl sefydliadau sy'n gweithio o fewn pob maes o'r sector ac felly yn cynhyrchu amcangyfrifon ar gyfer cyfanswm trosiant y sector cyfan. Roeddem yn ofalus nad oedd y broses yn rhoi sgîw ar y gwerthoedd cyfartalog a gyfrifwyd drwy gynnwys ffigurau nad oeddent yn 'nodweddiadol' o'r sector. Nid oedd unrhyw werthoedd a gofnodwyd yn yr arolwg a oedd yn arbennig o fawr neu fach yn cael eu cynnwys o fewn y gwerthoedd cyfartalog ac yn lle hynny, cawsant eu hychwanegu fel gwir werthoedd at gyfanswm yr amcangyfrifon a gynhyrwyd.

Roedd yr holiadur yn gofyn i ymatebwyr nodi'r canlynol:

- Natur eu busnes (cynllunio a datblygu, gweithgynhyrchu a pheirianeg, datblygwyr);
- Cyfanswm y trosiant blynyddol;
- Cyfanswm y trosiant blynyddol sy'n

deillio o weithgaredd sy'n gysylltiedig ag ynni gwynt yng Nghymru;

- Amcangyfrifiad o gynnydd yn y trosiant erbyn 2011 a 2012;
- Nifer y staff a gyflogir;
- Costau staff yng Nghymru;
- Gwariant ar nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru;
- Capasiti cynhyrchu gwynt presennol;
- Datblygiadau arfaethedig mewn capasiti gwynt (2015 a 2020);
- Taliadau er bydd y gymuned yn seiliedig ar gapasiti presennol hyd 2020;
- Taliadau disgwyliedig er bydd y gymuned ar gapasiti arfaethedig hyd 2020.

Mae'r astudiaeth hon yn ategu gwaith ymchwil a gomisiynwyd yn flaenorol gan RenewableUK yn 2008 a dylid ystyried y canfyddiadau law yn llaw a'r astudiaethau hynny¹.


Proffil o'r sector

Mae'r sector fel y'i diffinnir o fewn ein dadansoddiad wedi'i lunio'n bennaf o gynllunwyr a datblygwyr sydd â chapasiti presennol a / neu capasiti arfaethedig i gynhyrchu ynni gwynt yng Nghymru.

Mae'r sector hefyd yn cynnwys cwmnïau gweithgynhyrchu a pheirianneg sy'n cynhyrchu o leiaf rhan o drosiant eu busnes drwy gynhyrchu a sefydlu strwythurau ac offer sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chynhyrchu ynni gwynt. Yn olaf, mae'r sector hefyd yn cynnwys busnesau sy'n darparu gwasanaethau cyfreithiol, ymgynghori a chysylltiadau cyhoeddus yn uniongyrchol sydd wedi'u hanelu'n benodol at y sector ynni gwynt.

Mae strwythur cymesurool y sector, yn ôl nifer y sefydliadau, wedi'i amlinellu yn ffigur 1 isod.

Ffigur 1 Proffil o'r sector ynni gwynt yng Nghymru



Trosiant

Drwy ddadansoddi'r ymatebion i'r arolwg yn unol â'r fethodoleg a amlinellir ar dudalen 8 uchod, rydym wedi gallu cynhyrchu amcangyfrifon ar gyfer cyfanswm y trosiant a gynhyrchir gan y sector ynni gwynt yng Nghymru. Mae crynodeb o'r amcangyfrifon ar gyfer trosiant wedi'u hamlinellu yn nhabl 1 isod.


Mae'r golofn gyntaf yn nhabl 1 yn amlinellu amcangyfrifon ar gyfer cyfanswm y trosiant a gynhyrchir gan sefydliadau sy'n gweithredu yn y sector ynni gwynt yng Nghymru. Amcangyfrifir bod cyfanswm yr holl drosiant a gynhyrchir gan y sefydliadau hyn dros £4 biliwn, sy'n pwysleisio'r ffaith bod rhai o'r sefydliadau sy'n gweithredu o fewn y sector hwn yng Nghymru yn gwmnïau mawr sy'n gweithredu mewn marchnadoedd byd-eang. Mae rhai o'r rhain wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, ond mae ganddynt bresenoldeb cryf yma. I'r gwrthwyneb, mae cwmnïau eraill wedi'u lleoli yng Nghymru, er bod llawer o'u trosiant yn gysylltiedig â gweithgaredd mewn mannau eraill. Mae'r sector hefyd yn cynnwys nifer o fusnesau bach a chanolig.

Mae colofn 2 o dabl 1 yn amlinellu, o gyfanswm y trosiant a gynhyrchir gan y sefydliadau sy'n rhan o'r sector ynni gwynt yng Nghymru, mae ychydig dros £253 miliwn ohono yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru, ac mae £123.5m miliwn yn deillio o weithgaredd sy'n gysylltiedig ag ynni gwynt yng Nghymru. Mae hyn yn golygu tua 0.3% o Gynnyrch Mewnwladoi Crynswth (GDP) Cymru.

Tabl 1 Trosiant a gynhyrchir gan fusnesau sy'n gweithredu yn y sector ynni gwynt yng Nghymru

Cyfanswm trosiant blynyddol busnesau sy'n gweithredu yn y sector ynni gwynt yng Nghymru	Cyfanswm y trosiant blynyddol a gynhyrchir yng Nghymru	Cyfanswm y trosiant blynyddol sy'n deillio o weithgaredd sy'n gysylltiedig ag ynni gwynt yng Nghymru
£4,229,341,667	£253,167,000	£123,521,167

Mae ffigur 3 yn amlinellu sut y mae amcangyfrifon o'r trosiant a gynhrychir gan y sector ynni gwynt yng Nghymru, a amlinellir yn nhabl 1, yn cymharu â sectorau diwydiant eraill yng Nghymru (gan ddefnyddio'r Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) fel procsi ar gyfer trosiant²). O edrych ar hyn gallwn weld, o ran trosiant, mae'r sector ynni gwynt yn cymharu â sectorau megis gweithgynhyrchu pren a chynhyrchion pren ac mae fwy na dwy ran o dair yn fwy na maint y sector amaethyddol. O'r herwydd, gallwn ddod i'r casgliad bod y sector yn rhan bwysig iawn o'r economi yng Nghymru, yn arbennig mewn perthynas â'r cyfraniad at y GDP o fewn ardaloedd gwledig. Hefyd, mae'n sector sydd â'r potensial i dyfu yn sydyn fel y dangosir yn yr adrannau dilynol.



Ffynhonnell: Data arolwg 2010 a data ONS 2007

Rhagolygon o'r cynnydd mewn trosiant


Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd amcangyfrif i ba raddau yr oeddent yn disgwyl i'w trosiant presennol gynyddu neu ostwng yn ystod y 12 i 24 mis nesaf. Mae'r canlyniadau wedi'u crynhoi yn ffigurau 4.1 a 4.2 isod. Mae'r ffigurau yn dangos bod pawb a ymatebodd i'r arolwg yn disgwyl o leiaf ychydig o gynydd yn nhrosiant eu busnes erbyn 2011. Roedd bron i chwarter ohonynt (23%) yn rhagweld cynnydd o hyd at 5%, a thros draean (38%) yn rhagweld cynnydd o rhwng 5 a 10%, tra bo'r un maint yn rhagweld cynnydd o rhwng 10 a 15%.

Os ydym ni'n defnyddio lefelau trosiant presennol i gyfrifo'r rhagolygon hyn, rydym yn canfod ar sail y disgwyliadau hyn y gallai cyfanswm trosiant y sector gynyddu o'i lefel bresennol o £123.5 miliwn i £134.5 miliwn. Byddai hyn yn cynrychioli cynnydd o 9% mewn trosiant ar draws y sector ynni gwynt yng Nghymru.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr hefyd yn disgwyl cynnydd pellach mewn trosiant erbyn 2012. Roedd dros hanner (46%) yn rhagweld cynnydd o rhwng 10 a 20% gyda 15% yn rhagweld cynnydd o rhwng 5 a 10% ac 8% yn disgwyl i drosiant eu busnes gynyddu hyd at 5%. Fodd bynnag, nododd bron i draean ohonynt (31%) eu bod yn disgwyl i lefel trosiant eu busnes barhau i fod yr un peth yn ystod 2012.


Os ydym yn defnyddio lefelau trosiant presennol i gyfrifo'r rhagolygon hyn, rydym yn canfod, yn seiliedig ar y disgwyliadau hyn, y gallai cyfanswm trosiant y sector gynyddu o'i lefel bresennol o £123.5 miliwn i £145.6 miliwn. Byddai hyn yn cyfateb i gynnydd o 17.9% mewn trosiant ar draws y sector yng Nghymru.

Ffigur 4.1 rhagolygon o'r cynnydd mewn trosiant erbyn 2011



Ffynhonnell: Arolwg Arad 2010

Ffigur 4.2 rhagolygon o'r cynnydd mewn trosiant erbyn 2012



Ffynhonnell: Arolwg Arad 2010

Cyfraniad at economi Cymru

Mae'r adran hon yn amlinellu'r cyfraniad y mae'r sector ynni gwynt yn ei wneud i economi Cymru o ran nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi, yn ogystal â gwariant ar gyflogau, nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau yn y sector ynni gwynt yng Nghymru.

Cyflogaeth

Drwy ddadansoddi'r data cyflogaeth a gyflenwyd gan ymatebwyr i'r arolwg, rydym yn gallu cynhyrchu amcangyfrifon ar draws y sector cyfan o gyfanswm y cyfleoedd gwaith a gynhrychir gan y sector yng Nghymru. Fel gyda'r data trosiant, cafodd yr amcangyfrifon hyn eu cyfrifo drwy Gronni Cyfartaleddau Cyflogaeth a ddarparwyd gan ymatebwyr yr arolwg o fewn pob categori busnes yn y sector. Ochr yn ochr â lefelau cyflogaeth presennol, gofynnwyd i ymatebwyr nodi faint o aelodau ychwanegol o staff yr oeddent yn disgwyl eu cyflogi erbyn 2012. Mae crynodeb o'r canlyniadau wedi'i amlinellu yn nhabl 2 isod.

Fel y gellir gweld, mae'r sector yn ffynhonnell sylweddol o gyfleoedd gwaith. Caiff bron i 800 o bobl eu cyflogi ar hyn o bryd (cyfanswm o 789 o swyddi / cyfystyr â 655 llawn amser) ac mae hyn, yn ôl yr ymatebwyr, yn debygol o gynyddu i bron 1200 erbyn 2012 (cyfanswm o 1190 o swyddi / cyfystyr â 1040 llawn amser). Gellir ystyried y ffigurau a gynhwysir yn y tabl law yn llaw â data blaenorol, a oedd yn adrodd bod oddeutu 5,000 o bobl yn cael eu cyflogi gan y diwydiant ynni gwynt ledled y DU yn 2008³. Mae'r swyddi sy'n cael eu creu o fewn y sector hefyd gan amlaf yn swyddi sgiliau uchel-cyflog uchel. Mae tabl 3 isod yn amlinellu mai £34.5 miliwn y flwyddyn yw ein hamcangyfrif presennol o gyfanswm y gwariant ar staff o fewn y sector. Mae hyn yn golygu

cyflog cyfartalog o bron i £44,000 y flwyddyn o fewn y sector.

Un mater i'w nodi, fel y nodwyd yn y gwaith ymchwil gan Bain and Company (2008), yw'r cyflenwad cyfyngedig o bobl sydd â'r sgiliau a'r profiad i fodloni'r cynnydd a ragwelir mewn cyflogaeth yn y sector. Bu i ymatebwyr nodi pryderon ynghylch hyn yn ystod ein harolwg (gweler tudalennau 20-21). Mae hyn yn ategu canfyddiadau'r astudiaeth a gynhaliwyd gan SQW, a oedd yn nodi'r angen i RenewableUK a'r sector ynni gwynt ehangach ymgysylltu'n fwy eang â rhanddeiliaid o fewn y tirlun polisi sgiliau ac addysg.

Tabl 2 Cyflogaeth uniongyrchol o fewn y sector ynni gwynt yng Nghymru (swyddi wedi'u lleoli yng Nghymru)

Nifer y staff sydd wedi'u cyflogi yn y sector ynni gwynt yng Nghymru ar hyn o bryd		Staff ychwanegol a ragwelir y bydd yn cael eu cyflogi erbyn 2012		Cyfanswm y gyflogaeth uniongyrchol o fewn y sector ynni gwynt yng Nghymru erbyn 2012	
Cyfanswm	FTE	Cyfanswm	FTE	Cyfanswm	FTE
789	655	401	386	1190	1041

Ffynhonnell: Dadansoddiad arolwg Arad 2010

Gwariant ar staff, nwyddau a gwasanaethau o fewn economi Cymru

Gofynnwyd i ymatebwyr amlinellu eu gwariant blynyddol ar staff, nwyddau a gwasanaethau yn ogystal â gwariant ar gontractau a ddyfernir i gwmnïau eraill yng Nghymru.

Mae tabl 3 isod yn amlinellu crynodeb o'r amcangyfrifon gwariant sy'n deillio o'n dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg. Mae'r canlyniadau yn dangos bod y sector ynni gwynt yn cyfrannu £103 miliwn o bunnoedd yn uniongyrchol i economi Cymru.

Fodd bynnag, dim ond yn rhannol y mae'r cyfraniad uniongyrchol hwn i'r economi yn adlewyrchu effaith a chyfraniad y sector ynni gwynt yng Nghymru. Bydd rhan o'r gwariant uniongyrchol hwn yn cael ei basio ar ffurf rowndiau pellach o wario a gymhellir

gan y gwariant cychwynnol. Er mwyn cynnwys y rowndiau ychwanegol hyn rydym wedi cymhwyso lluosydd safonol ar gyfer y diwydiant i'r ffigur ar gyfer gwariant uniongyrchol. Mae cymhwyso'r lluosydd hwn yn ein galluogi i amcangyfrif y bydd cyfanswm cyfraniad blynyddol y sector ynni gwynt yng Nghymru ychydig dros £158 miliwn.

Tabl 3

Gwariant ar staff	Gwariant ar nwyddau a gwasanaethau (cyflenwadau) ⁴	Gwariant ar gontractau a ddyfernir i gwmnïau eraill yng Nghymru	Cyfanswm y gwariant
£34,494,040	£33,954,550	£34,310,127	£102,758,717

⁴ Nid oedd y data sy'n ymwneud a gwariant ar nwyddau a gwasanaethau a gasglwyd drwy gyfrwng yr arolwg yn gofyn i gwmnïau wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o wariant. Fodd bynnag, rydym yn cymryd yn ganiataol bod cwmnïau wedi cynnwys taliadau tir yn y ffigurau a gyflwynwyd ar gyfer gwariant. Mewn arolwg blaenorol a gynhaliwyd gan RenewableUK, gofynnwyd i gwmnïau gynnwys taliadau tir o fewn eu ffigurau ar gyfer cyfanswm eu gwariant. Felly, rydym yn tybio eu bod wedi dilyn yr un drefn wrth ymateb i'r arolwg hwn.

Nid yw'n glir p'un a yw cwmnïau wedi cynnwys gwariant ar dir sy'n eiddo i'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae taliadau sy'n gysylltiedig â ffermydd gwynt sydd ar dir sy'n eiddo i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru wedi golygu taliadau o £8.2 miliwn hyd yn hyn, a disgwyllir iddo gynhyrchu £20.6 miliwn yn ychwanegol erbyn 2013.

Capasiti ynni gwynt a thaliadau er budd y gymuned

Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ddarparu data ar gapasiti gweithredol presennol a chapasiti'r prosiectau ynni gwynt sy'n cael eu datblygu dros y cyfnod hyd 2020.

Capasiti ynni gwynt presennol a chapasiti arfaethedig

Cafodd y data ar gyfer y capasiti presennol ei groesgyfeirio gydag UKWED i sicrhau bod gwaelodlin (baseline figure) yn cael ei ddefnyddio. Mae'n glir o'r ymatebion i'r arolwg bod aelodau RenewableUK yn ystyried y bydd capasiti ynni gwynt yng Nghymru yn ehangu'n sylweddol, a hynny ar gyfradd gyflymedig dros y ddegawd nesaf. Mae hyn yn galonogol ac yn fesur o hyder ymhlith cwmnïau ynni gwynt ar adeg ble mae effeithiau'r dirwasgiad yn dal i'w teimlo ar draws yr economi ehangach. Fodd bynnag, dylid amlinellu nifer o gafeatau cyn ystyried data'r arolwg a gyflwynir isod.

Yn gyntaf, wrth gyflwyno ymatebion, mae'n ymddangos bod cwmnïau wedi cynnwys nifer o safleoedd sydd mewn cyfnod cyn-gwmpasu, cyfnod cwmpasu a chyfnod cynllunio ar hyn o bryd, sy'n golygu fod yr amcangyfrifon o'r capasiti a fydd ar gael dros y 10 mlynedd nesaf fymryn yn optimistaidd. O ganlyniad i amrywiaeth o ystyriaethau datblygu, gan gynnwys cyfyngiadau economaidd, grid, cludo a chynllunio, awgrymir y bydd oddeutu hanner y capasiti sy'n cael ei archwilio gan ddatblygwyr yn debygol o

gael ei drosi'n brosiectau gweithredol. Hefyd, bu i gynrychiolwyr y sector nodi bod angen cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â phroblemau cludo a diweddariadau grid hanfodol, yn arbennig yng Nghanolbarth Cymru, er mwyn gallu cyflawni'r capasiti a gyflwynir yn nhabl 4.

Yn ail, ac fel y trafodwyd yn flaenorol, mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn deillio o broses o gronni gwerthoedd cymedrig a gyfrifwyd o'r ymatebion i'r arolwg. Mae gofal wedi'i gymryd yn ystod y broses er mwyn sicrhau nad ydym yn cam-gynrychioli gwerthoedd cyfartalog.

“Mae ymatebion i'r arolwg yn nodi y gallai capasiti gynyddu o'r 380MW presennol i 1,110MW erbyn 2015.”

Tabl 4 Capasiti presennol a chapasiti arfaethedig o ran cynhyrchu gwynt ar y tir yng Nghymru

	MW	Senario yn seiliedig ar ddata wedi'i addasu
Capasiti cynhyrchu gwynt ar y tir yng Nghymru yn bresennol (MW) Ffynhonnell: UKWED	380	
Amcangyfrif o'r capasiti gweithredol erbyn 2015 Ffynhonnell: Arolwg o aelodau RenewableUK	1110	Mae hyn gyfystyr â 730MW yn ychwanegol erbyn 2015. Mae UKWED yn nodi bod 209MW un ai wedi'i gymeradwyo neu wrthi'n cael ei adeiladu. Mae'r ymatebion i'r arolwg felly yn awgrymu bod 520MW ychwanegol yn cael ei archwilio neu ei gwmpasu gan ddatblygwyr. Gan dybio y bydd tua hanner hyn yn cael ei wireddu (h.y. 260MW), ceir amcangyfrifiad amgen o 850MW ar gyfer y capasiti gweithredol erbyn 2015.
Amcangyfrif o'r capasiti gweithredol erbyn 2020. Ffynhonnell: Arolwg o aelodau RenewableUK	3165	Os yw'r un dull yn cael ei ddilyn, gyda hanner y capasiti ychwanegol a amcangyfrifir (ar wahân i'r hyn sydd eisoes wedi'i gymeradwyo neu sy'n cael ei ddatblygu'n bresennol) yn dod yn weithredol, mae hyn yn cyflwyno amcangyfrifiad diwygiedig o 1875MW.

Mae tabl 4 yn crynhoi data sy'n gysylltiedig â chynhyrchu gwynt ar y tir. Mae ymatebion i'r arolwg yn nodi y gallai capasiti gynyddu o'r 380MW presennol i 1,110MW erbyn 2015.

Tra bo'r cynnydd a amcangyfrifir hyd at 2015 yn sylweddol (o dan y ddau senario uchod), mae tystiolaeth yn awgrymu bod potensial i gynydd o'r fath gael ei wireddu. Mae RenewableUK yn nodi bod 1,250MW o gapasiti ar y tir yn y camau cynllunio ar hyn o bryd.

Mae'r senarios yn nhabl 4 uchod yn cynrychioli twf sylweddol mewn capasiti ynni gwynt yng Nghymru erbyn 2020. Mae hyn yn cymharu fymryn i'r rhagolygon a gyflwynwyd gan Bain and Company (2008) a oedd yn modelu twf yn y diwydiant ynni gwynt ar y tir ac ar y môr ledled y DU ar sail tri senario allweddol. Roedd y senario sylfaenol yn rhagweld cyfanswm y capasiti (ar y tir ac ar y môr) yn cynyddu o 2.2GW yn 2007 i 27GW erbyn 2020, sef mwy na deg gwaith yn fwy. Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r arolwg, mae'r sector ynni gwynt yn rhagweld cynnydd mewn capasiti ar y tir ar yr un raddfa yng Nghymru rhwng 2010 a 2020 (o 380MW

i hyd at 3165MW). Mae'r data addasedig yn dangos cynnydd fwy modest a fyddai bum gwaith yn fwy.

Roedd data a gasglwyd yn ystod yr arolwg mewn perthynas ag ynni ar y môr yn llai cyflawn. Yn ôl UKWED, 150MW yw'r capasiti gweithredol ar y môr yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae gan ddatblygiadau Gwynt y Môr a Pharthau Ar y Môr Rownd 3 y potensial i greu hyd at 5.1GW o gapasiti. Yn ogystal, bu i un cwmni mawr ddarparu data ar y cynnydd a amcangyfrifir erbyn 2020, sy'n nodi y gallai 2.2GW ychwanegol ddod yn weithredol. Fodd bynnag, yr unig ffordd o gyflawni unrhyw dwf ychwanegol mewn capasiti ar y raddfa hon fyddai cynnal rownd prydles yn y dyfodol, a fyddai'n destun ymgynghoriad helaeth gyda rhanddeiliaid ac yn unol ag asesiad amgylcheddol strategol.

Taliadau er budd y gymuned

Gwahoddwyd ymatebwyr i'r arolwg i ddarparu data ar lefel y taliadau y maent yn eu gwneud er budd y gymuned ar hyn o bryd. Bu i rai nodi nad oes cyfradd benodedig a bod amrywiaeth o ffactorau yn effeithio ar daliadau.

“Yn fwy diweddar, cafodd ei awgrymu y byddai fferm wynt fasnachol cyffredin yn cyfrannu £1000-2500 y flwyddyn fesul MW mewn taliadau er budd y gymuned.”

Penderfynir ar y swm a gyfrannir drwy drafod a negodi, a hynny'n aml yn cynnwys datblygwr yr ynni gwynt, cynrychiolwyr ar ran y gymuned leol, yr awdurdod lleol ac weithiau bydd yr asiantaethau lleol yn darparu cymorth a chyngor.

Canfuwyd mewn gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn 2004-05, ar gyfer ffermydd gwynt a oedd yn gweithredu ar y pryd, bod cyfraniadau yn dueddol o fod rhwng £700-1000 y flwyddyn fesul MW⁵. Yn fwy diweddar, cafodd ei awgrymu y byddai fferm wynt fasnachol cyffredin yn cyfrannu £1000-2500 y flwyddyn fesul MW mewn taliadau er budd y gymuned. Mae hyn yn gyson â data a adroddwyd gan ddatblygwyr yn ystod ein harolwg, gyda thaliadau yn amrywio o £1,000 y flwyddyn fesul MW i £3,000 y flwyddyn fesul MW. Ar gyfartaledd, mae ymatebwyr i'r arolwg yn cyfrannu ychydig o dan £2,000 MW/pa. Mae cyfraddau'r taliadau er budd y gymuned⁶ wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar ac fe ragwelir y byddant yn parhau i gynyddu yn raddol.

Fodd bynnag, tra bo'r taliadau hyn wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar, ac yn debygol o barhau i wneud hynny, mae amrywiaeth o fodelau datblygu yn cael eu defnyddio yn y diwydiant ar hyn o bryd, a bydd lefel y taliadau a gynigir gan ddatblygwyr yn amrywio gan ddibynnu ar nodweddion unigol pob prosiect.

Er gwaethaf hyn, drwy edrych ar ddata yn ymwneud â chapasiti ynni gwynt presennol a chapasiti arafaethedig yng Nghymru, rydym wedi amcangyfrif y taliadau er budd y gymuned a allai gael eu gwneud hyd at 2015 a 2020. Cyfrifwyd yr rhain drwy ddefnyddio tair cyfradd, £1,000, £2,000 a £3,000MW y flwyddyn. Mae'r dadansoddiad isod yn cyflwyno dau senario: yn gyntaf, defnyddir y data a ddarparwyd gan gwmnïau ynni, ac yn ail, defnyddir data addasedig sy'n tybio mai dim ond hanner y prosiectau sy'n yr arfaeth a fydd yn cyrraedd y camau cynllunio ac yn dod yn weithredol. Mae cymhwyso'r ystod hwn o gyfraddau talu i'r capasiti cynhyrchu ynni presennol

5 Community Benefits from Wind Power: A study of UK practice and comparison with leading European countries, Adroddiad i'r Bwrdd Cynghori ar Ynni Adnewyddadwy a DTI, y Ganolfan Ynni Cynaliadwy a Garrad Hassan, 2005

6 Datblygu ffermydd gwynt yng Nghymru: asesu'r manteision cymunedol (Saesneg yn unig): Prosiect ymchwil a gynhaliwyd ar ran Lywodraeth Cynulliad Cymru. Richard Cowell, Gillian Bristow a Max Munday o Brifysgol Caerdydd, gyda Peter Strachan o Ysgol Fusnes Aberdeen. 2006-7

ac arfaethedig yng Nghymru yn darparu'r amcangyfrifon canlynol o ran taliadau er budd y gymuned erbyn 2015 a 2020.

Yn seiliedig ar y data addasedig uchod (ac ar daliadau cymunedol cyfartalog o £2,000MW y flwyddyn) rydym yn amcangyfrif y gallai taliadau er budd y gymuned sy'n gysylltiedig â chymunedau ffermydd gwynt yng Nghymru gyrraedd £17.5 miliwn dros y deng mlynedd nesaf. Mae hyn yn gyson i raddau ag ymchwil gan Brifysgol Caerdydd a oedd yn nodi ei bod hi'n realistig y gallai'r taliadau hyn gyrraedd £50 miliwn dros yr ugain mlynedd nesaf⁷.

Tabl 5 Taliadau posibl er budd y gymuned i gymunedau ffermydd gwynt yng Nghymru 2015 a 2020

Capasiti cynhyrchu gwynt ar y tir yng Nghymru (MW) yn bresennol	379.8MW	
Erbyn 2015:	Seiliedig ar ddata'r arolwg	Data addasedig
Amcangyfrif o gyfanswm y capasiti	1,110MW	850MW
Cyfanswm blynyddol y taliadau er budd y gymuned yng Nghymru, yn seiliedig ar daliadau o £1,000 MW y flwyddyn:	£1,110,000	£850,000
Cyfanswm blynyddol y taliadau er budd y gymuned yng Nghymru, yn seiliedig ar daliadau o £2,000 MW y flwyddyn:	£2,220,000	£1,700,000
Cyfanswm blynyddol y taliadau er budd y gymuned yng Nghymru, yn seiliedig ar daliadau o £3,000 MW y flwyddyn:	£3,330,000	£2,550,000
Erbyn 2020:		
Amcangyfrif o gyfanswm y capasiti	3,165MW	1,875MW
Cyfanswm blynyddol y taliadau er budd y gymuned yng Nghymru, yn seiliedig ar daliadau o £1,000 MW y flwyddyn:	£3,165,000	£1,875,000
Cyfanswm blynyddol y taliadau er budd y gymuned yng Nghymru, yn seiliedig ar daliadau o £2,000 MW y flwyddyn:	£6,330,000	£3,750,000
Cyfanswm blynyddol y taliadau er budd y gymuned yng Nghymru, yn seiliedig ar daliadau o £3,000 MW y flwyddyn:	£9,495,000	£5,625,000

⁷ Datblygu ffermydd gwynt yng Nghymru: asesu'r manteision cymunedol (Saesneg yn unig): Prosiect ymchwil a gynhaliwyd ar ran Lywodraeth Cynulliad Cymru. Richard Cowell, Gillian Bristow a Max Munday o Brifysgol Caerdydd, gyda Peter Strachan o Ysgol Fusnes Aberdeen. 2006-7.

Gwerth y sector ynni gwynt i economi Cymru

Pe byddwn ni'n cymhwyso'r amcangyfrifon presennol ar drosiant y sector ynni gwynt yng Nghymru a gynhyrchwyd gan yr adroddiad hwn i MW yr ynni gwynt a gynhyrchir yng Nghymru ar hyn o bryd, byddwn yn cael trosiant o £325,000 / MW ar gyfer y diwydiant.

Pe byddwn ni wedyn yn tybio bod y gymhareb o drosiant busnes a gynhyrchir ar gyfer pob MW yn parhau yn gyson wrth i gynhyrchiant ynni gwynt yng Nghymru gynyddu dros y ddegawd nesaf, erbyn 2020, yn seiliedig ar ragolygon o'r lefelau ynni a gynhyrchir ar y pryd, byddwn ni'n cael y ffigurau trosiant canlynol:

Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffigurau a amlinellir yn nhabl 6 er mwyn sicrhau bod y rhagdybiaethau hynny y mae'r ffigurau yn seiliedig arnynt yn cael eu hystyried yn llawn. Felly, dylid eu hystyried fel amcangyfrifon enghreifftiol yn unig o'r cyfraniad economaidd y gallai'r sector ynni yng Nghymru ei gynhyrchu yn seiliedig ar ein dealltwriaeth bresennol o'r twf posibl mewn cynhyrchiant yn y sector dros y ddegawd nesaf. Fodd bynnag, hyd yn oed os ydym yn cymryd gofal digonol wrth ddadansoddi'r ffigurau hyn, maent yn dal i ddangos y cyfraniad economaidd sylweddol y gallai'r sector ynni gwynt ei gynnig i Gymru. Gallai twf mewn ynni gwynt erbyn 2020 gynhyrchu trosiant busnes sy'n gyfwerth â rhwng 1 a 2% o GDP Cymru. Yr her i Gymru yw sicrhau bod cymaint o'r trosiant hwn â phosibl yn cael ei ddiogelu yng Nghymru a hynny drwy gefnogi cyfleoedd busnes ar hyd a lled y gadwyn gyflenwi.

Tabl 6		
	Amcangyfrif o gapasiti gweithredol erbyn 2020 (data'r arolwg)	Capasiti gweithredol addasedig erbyn 2020
	3.17GW	1.88GW
Trosiant (£)	£1 biliwn	£600 miliwn
% o GDP Cymru (%)	2.2%	1.3%

Fynhonnell: Amcangyfrifon data yr arolwg

Sylwadau gan y sector ynni gwynt: effaith ynni gwynt ar economi a chymunedau Cymru

Gwahoddwyd ymatebwyr yr arolwg i fynegi unrhyw safbwyntiau neu sylwadau ar yr effaith y maent yn rhagweld y bydd ynni gwynt yn ei chael ar ddatblygiad economi a chymunedau Cymru dros y ddegawd nesaf.

Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno nifer o'r sylwadau hyn (wedi'u cyfieithu). Roedd y safbwyntiau a fynegwyd, a gyflwynwyd yn ddiennw, yn disgyn o fewn nifer o gategoriâu bras, yn amrywio o'r angen i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau i alwadau am gyrrff rheoleiddio i ystywto'r prosesau cynllunio.

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn cefnogi'r dadansoddiad o'r data a'r dystiolaeth feintiol a gyflwynwyd mewn adrannau blaenorol. Ar y cyfan, ceir yr argraff bod cwmnïau yn benderfynol ac yn angerddol dros atgyfnerthu'r sector hwn ymhellach a sicrhau bod Cymru yn gallu cyflawni'r manteision gorau posibl ar sail cyfleoedd presennol ac yn y dyfodol.

Yr angen i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau a chapasiti ymhlith cwmnïau yng Nghymru

“Mae'r diwydiant ynni gwynt yng Nghymru eisoes yn darparu swyddi crefftus a gaiff eu talu'n dda. Mae angen gweithio yn awr i sicrhau bod cwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru mewn sefyllfa dda i dendro am waith adeiladu a gwasanaethau eraill.”

“Mae'r diwydiant ynni adnewyddadwy yn debygol o gael effaith positif iawn ar economi Cymru gyda disgwyliadau y bydd nifer y swyddi coler gwyrdd yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y broses adeiladu a gweithredu. Mae ymgysylltu â busnesau lleol yn un o amcanion allweddol pob un o'n datblygiadau ac mae gan ein prosiectau yng Nghymru y potensial i greu nifer o swyddi a chreu buddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd mewn cymunedau cyfagos.”

“[mae angen i ni] ddatblygu pwll o arbenigedd, sgiliau a gallu gweithgynhyrchu y gellir ei allforio a rhoi Cymru ar flaen yr economi werdd. Mae hyn yn golygu nifer sylweddol o swyddi sy'n talu'n dda mewn amrywiaeth helaeth o sectorau, cefndiroedd a lleoliadau.”

“Bydd llawer o waith adeiladu amrywiol yn gysylltiedig â chynlluniau ynni gwynt ar y tir o fewn yr Ardaloedd Chwilio Strategol (SSAs) neu yn agos atynt. Bydd peth effaith ar ardaloedd lleol yn ystod y broses adeiladu, a rhai effeithiau hirdymor o ran y tirlun ac effeithiau gweledol a sŵn. Bydd rhai swyddi hirdymor yn cael ei greu o ganlyniad i weithredu a chynnal a chadw.”

Denu busnesau i sefydlu presenoldeb yng Nghymru er mwyn manteisio ar gyfleoedd

“Gallai datblygiadau ynni gwynt olygu manteision ychwanegol arwyddocaol i gymunedau lleol dros y ddegawd nesaf. Dylid annog sefydliadau gweithgynhyrchu a gwasanaethu i leoli yng Nghymru.”

Galwadau am awdurdodau rheoleiddio i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau sy'n wynebu datblygwyr

“Bydd datblygu, adeiladu a gweithredu ynni gwynt ar y tir yn cael effaith bositif iawn ar economi Cymru wledig dros y ddegawd nesaf, ond dim ond os caiff datblygwyr gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Lleol y gall hyn ddigwydd. Mae'r cynnydd presennol yn wael iawn o ganlyniad i lefel y rhwystrau a'r fiwrocratiaeth, ac oni bai bod ymrwymiad yn cael ei wneud gan y cyrff uchod, mae'n bosibl

y bydd economi a phobl Cymru yn colli cyfleoedd enfawr neu'n methu â gwireddu cyfleoedd i'w llawn botensial. Dylid hefyd annog cefnogaeth (ar ffurf ymrwymiad i weithredu polisi) ar gyfer cwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru sy'n ymdrechu i fod yn rhan o ddiwydiant ynni gwynt Cymru, canys drwy'r cwmnïau hyn y bydd y rhan fwyaf o fanteision yn parhau o fewn y wlad a'i heconomi.”

Cefnogaeth wleidyddol a rheoleiddiol dros ddatblygiadau llai

“Mae dangosyddion cryf bod twf yn nifer y prosiectau llai (50-500kW) sy'n cael eu harwain a'u cyllido gan dirfeddianwyr yng Nghymru. Mae hyn yn golygu cefnogaeth wleidyddol i feithrin

diwydiant newydd- a fydd yn arwain, gobeithio, at weithgynhyrchu tyrbinau bach, yn ogystal â gweithgynhyrchu tyrau a datblygu, sefydlu, gweithredu a chynnal a chadw .”

Cydnabyddiaeth o effaith taliadau er budd y gymuned

“Bydd ynni gwynt yn sbarduno economïau lleol ac yn darparu cyfleoedd gwaith parhaus o safon. Dylai taliadau er budd y gymuned ddod â manteision sylweddol i gymunedau lleol, yn arbennig os llwyddir i gael arian cyfatebol ar gyfer prosiectau cymunedol o ffynonellau eraill.”

prydles i tir a thaliadau cymunedol.”

“Caiff incwm sylweddol ei ddarparu i mewn ardaloedd lle mae'r incwm presennol yn isel, a hynny drwy gyfrwng

“Bydd effaith cyfleoedd gwaith ar gymunedau yn sylweddol, gan gynnwys gwaith datblygu, adeiladu a gweithredu, a gwaith gweithgynhyrchu yn fwyfwy. Bydd cymunedau hefyd yn elwa ar gyfleoedd gwaith sylweddol ac arian cymunedol.”

Manteision economaidd clir ynni gwynt

“O ystyried bod 2 barth enfawr ar y môr yn ogystal â sawl prosiect ar y tir yng Nghymru, rhagwelir y bydd ynni gwynt yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at economi Cymru.”

i ddenu buddsoddiad a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gweithgynhyrchu ar gyfer cydrannau tyrbinau gwynt yng Nghymru. Gallai hyn arwain ar fanteision pellach ymhellach ar hyd y gadwyn gyflenwi ar gyfer cwmnïau gweithgynhyrchu eraill yng Nghymru (gan gynnwys Corus ym Mhort Talbot a chwmnïau sy'n darparu'r ystod lawn o wasanaethau). Os caiff y sector ynni gwynt ei weld fel un sy'n gwneud cyfraniad arwyddocaol at economi Cymru, credwn y byddai'n cael effaith bositif ar agweddau tuag atynt.”

“Gallai ynni gwynt fod yr hwb mwyaf i economi gwledig Cymru yn ein hoes ni.”

“Mae gan ynni gwynt y potensial i gynnig gwir fanteision hirdymor i economi a chymunedau Cymru, cyn belled â bod y canlynol yn digwydd: i. Perchnogaeth effeithiol a defnydd rhagweithiol o daliadau er budd y gymuned gan gymunedau yng Nghymru at ddibenion datblygu'r economi a'r gymuned. ii. Caiff dull rhagweithiol a chydgyssylltiedig ei ddatblygu gan y diwydiant, gan gydweithio â llywodraeth

Casgliadau

Adroddiad Gwerth Economaidd Ynni Gwynt i Gymru

Mae'r arolwg a gynhaliwyd gan Arad Consulting ar ran RenewableUK Cymru ar Werth Economaidd Gwynt i Gymru yn ymgais broffesiynol cyntaf o'i math i amcangyfrif cyfraniad y sector ynni gwynt i economi Cymru, a hynny yn bresennol ac yn y dyfodol.

Casgliad RenewableUK Cymru

Mae'r canlyniadau o ddiddordeb penodol gan eu bod yn seiliedig ar arolwg o fusnesau allweddol sy'n gweithredu yn y sector, ac felly yn adlewyrchu gweithgaredd y diwydiant ar hyn o bryd a rhagamcanion o ran twf.

Mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar ymatebion i holiadur a gynigwyd gan fusnesau yr ydym yn gwybod eu bod yn gweithredu o fewn y sector ynni gwynt yng Nghymru. Cafodd cyfanswm o 53 o gwmnïau eu nodi, ac o'r rhain, bu i 20 (38%) lenwi'r holiadur. Mae maint y sampl yn ddigonol fel y gellir cymhwyso dangosyddion yr adroddiad i wneud rhagfynegiadau pellach.

Mae'r arolwg yn nodi proffil y sector o ran cyfansoddiad sefydliadau ac mae'n gwahanu natur busnesau yn rhesymol rhwng busnesau sy'n bennaf yn rhan o gynllunio a datblygu; gweithgynhyrchu a pheirianneg a gwasanaethau cyfreithiol ac ymgynghori. Roedd dros 50% o'r busnesau a ddadansoddiwyd yn gynllunwyr ac yn ddatblygwyr.

Wedi sefydlu'r tri grŵp hwn o fusnesau, mae'r adroddiad yn gwerthuso'r gwerth presennol i economi Cymru yn ôl trosiant, gwariant a chreu swyddi, a hynny yn bresennol ac yn y dyfodol. Roedd cwestiynau yn canolbwyntio ar drosiant sy'n deillio o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag ynni gwynt ac amcangyfrif o'r cynnydd yn 2011 a 2012. Cafwyd cwestiynau hefyd ar y staff a gyflogir, gwariant ar nwyddau a gwasanaethau, datblygiadau arfaethedig mewn capasiti cynhyrchu gwynt a thaliadau er budd y gymuned yn bresennol ac yn y dyfodol.

Trosiant

Yn dilyn methodoleg a oedd yn sicrhau nad oedd cyfartaleddau cymwysedig yn cam-gynrychioli'r canlyniad, mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif cyfanswm y trosiant sy'n deillio o weithgaredd sy'n gysylltiedig ag ynni gwynt yng Nghymru i fod yn £123.5 miliwn. Yn nhermau'r GVA, mae'r amcangyfrifiad hwn yn rhoi'r sector ynni gwynt ymhell uwchlaw cyfraniad diwydiannau megis pysgota a choedwigaeth yng Nghymru, tra'i fod yn cymharu'n dda â sectorau sydd wedi'u hen sefydlu, megis

“Mae'r canlyniadau o ddiddordeb penodol gan eu bod yn seiliedig ar arolwg o fusnesau allweddol sy'n gweithredu yn y sector, ac felly yn adlewyrchu gweithgaredd y diwydiant ar hyn o bryd a rhagamcanion o ran twf.”

“Roedd pawb a ymatebodd i'r arolwg yn rhagweld peth cynnydd mewn trosiant yn 2011.”

gweithgynhyrchu cynhyrchion pren, amaeth a chloddio a chwarela.

Mae'r set hon o ddata yn dangos yn glir bod y sector ynni gwynt yn gyfrannwr pwysig tuag at economi Cymru, yn arbennig o ran ei fewnbwn i GDP ardaloedd gwledig.

O ran rhagolygon am y cynnydd mewn trosiant, mae'r canlyniadau yn dangos hyder y diwydiant mewn twf, er gwaetha'r rhwystrau niferus sy'n llesteirio cynnydd ar y tir. Roedd pawb a ymatebodd i'r arolwg yn rhagweld peth cynnydd mewn trosiant yn 2011, gyda 38% ohonynt yn disgwyl i'r cynnydd fod cymaint â 10-20%. Roedd bron i hanner y busnesau yn disgwyl gweld cynnydd mewn trosiant o rhwng 10 a 20% yn 2012.

Cyfraniad i economi Cymru

Mae'r adran hon yn amlinellu'r cyfraniad y mae'r sector ynni gwynt yn ei wneud i economi Cymru o ran cyflogaeth (h.y. swyddi wedi'u lleoli yng Nghymru), a'r gwariant ar gyflogau, nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru.

Nodwyd yn yr adroddiad bod 789 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector, cyfwerth â 655 llawn amser. Mae'r cyfanswm hwn yn cynyddu i 1190 erbyn 2012 neu 1040 llawn amser. Mae hyn yn cadarnhau bod y sector yn cynnig cyfleoedd gwaith sylweddol ar gyfer swyddi crefftus sy'n talu'n dda.

Gofynnodd yr arolwg i fusnesau amlinellu eu gwariant blyneddol ar staff, nwyddau a gwasanaethau yn ogystal â gwariant ar gontractau a ddyfernir i gwmnïau eraill yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod oddeutu £34.5 miliwn yn cael ei wario ar staff yng Nghymru, tra amcangyfrifir bod £34 miliwn pellach yn cael ei wario ar nwyddau a gwasanaethau. £34 miliwn yw'r gwariant hefyd ar gontractau a ddyfernir i gwmnïau eraill yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae'r sector ynni gwynt yn cyfrannu oddeutu £103 miliwn yn uniongyrchol i economi Cymru.

Bydd rhan o'r gwariant uniongyrchol hwn yn cael ei basio ymlaen mewn rowndiau gwario pellach yng Nghymru. Drwy gymhwyso lluosydd safonol ar gyfer y diwydiant i'r ffigur ar gyfer gwariant, mae'r adroddiad yn amcangyfrif y bydd cyfanswm cyfraniad blyneddol y sector ynni gwynt yng Nghymru dros £158 miliwn.

Capasiti Ynni Gwynt a thaliadau er budd y gymuned

Gofynnwyd i fusnesau amlinellu eu capasiti ynni gwynt presennol yn ogystal â'r cynnydd arfaethedig mewn capasiti erbyn 2015 a 2020 gyda data yn cael ei groesgyfeirio â chronfa ddata tracio RenewableUK, sef UKWED. Mae'r canlyniadau yn adlewyrchu'n glir y nifer sylweddol o brosiectau sydd eisoes wedi'u pasio i'r camau cynllunio neu sydd wrthi'n cael eu paratoi i'w cyflwyno. Mae ymatebion i'r arolwg yn dangos y gallai capasiti gynyddu o'r 380 MW presennol i oddeutu 1,110 MW erbyn 2015.

“Mae'r sector ynni gwynt yn cyfrannu oddeutu £103 miliwn yn uniongyrchol i economi Cymru.”

“Mae'r canlyniadau yn adlewyrchu'n glir y nifer sylweddol o brosiectau sydd eisoes wedi'u pasio i'r camau cynllunio neu sydd wrthi'n cael eu paratoi i'w cyflwyno.”

Gwahoddwyd ymatebwyr i ddarparu data ar gyfer taliadau er budd y gymuned y maent yn eu talu ar hyn o bryd. Gan nad oes cyfradd benodedig ar gyfer taliadau mae'r adroddiad yn cyflwyno dau senario i arddangos beth y gallai'r taliadau blynyddol er budd y gymuned fod erbyn 2015 a 2020. Mae gwahanol senarios yn dangos y gall taliadau er budd cymunedau amrywio rhwng £1.7 miliwn i £3.3 miliwn erbyn 2015, a rhwng £3.7 miliwn a £9.5 miliwn erbyn 2020.

Sylwadau i gloi

O ystyried yr amgylchiadau economaidd byd-eang anodd, mae cadernid a hyder y sector ynni gwynt yng Nghymru yn rhyfeddol a dylid ei ddathlu. Mae canlyniad yr arolwg yn dangos yn glir bod y sector eisoes yn cyfrannu'n helaeth at economi Cymru. Os yw'n cael y cyfle i dyfu, bydd y sector ynni gwynt yn debygol o gynhyrchu trosiant busnes o rhwng 1 -2% o GDP Cymru. Byddai hyn yn ei wneud yn ddiwydiant carbon isel cynaliadwy sy'n ffynnu, ac yn ddiwydiant y gall Llywodraeth y Cynulliad fod yn falch ohono.

RenewableUK

Greencoat House, Francis Street
London SW1P 1DH, United Kingdom

Ffôn: +44 (0)20 7901 3000

Ffacs: +44 (0)20 7901 3001

Gwefan: www.renewable-uk.com

E-bost: info@renewable-uk.com

RenewableUK - Cymru

Temple Court, 13a Cathedral Road,
Cardiff, Wales, CF11 9HA

Ffôn: 029 2022 0700

E-bost: cymru@renewable-uk.com

